## Uno cymunedau mewn cân

Yn ystod Cyfarfod Blynyddol 2023, penderfynodd y côr gynnal digwyddiad fyddai'n rhoi cyfle i ddysgu mwy am ddiwylliant y gymuned ffoaduriaid a cheiswyr lloches ac i wneud hynny trwy gân, gyda'r nod o ddatblygu cyd-ddealltwriaeth rhwng y grwpiau hyn a'r gymuned leol.

Datblygodd y syniad yn brosiect cydweithredol gyda Chôr Un Byd Oasis – côr o Gaerdydd  sy'n cynnwys gwirfoddolwyr cerddorol o'r gymuned leol yn y ddinas ac o gymuned y ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Ar brynhawn Sadwrn, 24 Chwefror felly, cynhaliwyd gweithdy canu yng Nghanolfan St Paul, Aberystwyth gan ddysgu a rhannu caneuon o wahanol ddiwylliannau er mwyn cryfhau'r cyswllt rhwng ein cymunedau a dod i ddeall ein gilydd yn well. Daeth bron hanner cant o unigolion ynghyd ar y diwrnod – yn cynnwys aelodau'r ddau gôr ac aelodau'r gymuned ffoaduriaid lleol.

Fel y dywedodd Nest Howells, Arweinydd Côr Gobaith: *"Rydym yn gôr sydd wedi bod yn canu dros y materion sy'n bwysig i ni ers dros 15 mlynedd. Ers y cychwyn, rydym wedi croesawu pobl o bob math o gefndiroedd i ganu efo ni – pobl anabl, pobl o'r gymuned LGBTQ+ a phobl o bob rhan o'r byd. Eleni, penderfynwyd canolbwyntio ar y cyswllt gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches."*

Am 7.00 yr un diwrnod, cynhaliwyd cyngerdd – Undod mewn Cân – er budd AberAid a Chanolfan Oasis yn Amgueddfa Ceredigion gyda pherfformiadau gan fynychwyr y gweithdy, Côr Gobaith, Côr Un Byd Oasis ac eraill.

Pan ddaw grŵp o bobl ynghyd i ganu – dim ots pwy ydyn nhw nac o ble maen nhw'n dod – caiff rhwystrau a ffiniau eu chwalu mewn modd unigryw ac arbennig iawn. Mae canu yn wirioneddol uno cymunedau.

Cynhaliwyd y gweithgarwch gyda chymorth ariannol Cronfa Cydlyniant Cymunedol Canolbarth a De-orllewin Cymru. Diolch.

## Uniting communities in song

During 2023's Annual General Meeting, the choir decided to hold an event to learn more about the culture of the refugee and asylum-seeker community and to do so through song, with the aim of developing mutual understanding between these groups and the local community.

The idea developed into a collaborative project with Oasis One World Choir – a choir from Cardiff consisting of musical volunteers both from the local community and the refugee and asylum-seeking community.

So, on Saturday afternoon, 24 February, a workshop was held at St Paul's Centre, Aberystwyth where songs from different cultures were taught and shared in order to strengthen the  link between the various communities and to understand each other better. Almost fifty people attended the workshop – including members of both choirs and individuals from the local refugee community.

As Nest Howells, Leader of Côr Gobaith said: "*We are a choir that has been singing for the issues that are important to us for more than 15 years. From the beginning, we have welcomed people from all sorts of backgrounds to sing with us – disabled people, people from the LGBTQ+ community and people from different parts of the world. This year, we decided to concentrate our efforts on the refugee and asylum-seekers communities."*

At 7 o'clock on the same day, a benefit concert for AberAid and the Oasis Centre was held at Ceredigion Museum with performances by participants of the workshop, Côr Gobaith, Oasis One World Choir and others.

When a group of people come together to sing – no matter who they are or where they come from, barriers are broken in a special and unique way. Music really does unite communities.

The day's activities were organised with the financial support of the Welsh Government through the Mid and South West Wales Community Cohesion Fund. Diolch.

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**